Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a ystyriwyd ar 9 Ionawr 2023

Ionawr 2023

# 1. Y cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* (Deddf 2010). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 9 Ionawr 2023[1] buom yn ystyried cytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU: sef Protocol sy'n diwygio'r Protocol Ychwanegol i'r Confensiwn ar Drosglwyddo Personau a Ddedfrydwyd.

**6.** Cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig. Mae rhagor o fanylion am y cytundeb i'w gweld yn adran 2 isod.

**7.** Ar 9 Ionawr gwnaethom hefyd nodi gohebiaeth yn ymwneud â chytundeb rhyngwladol a ystyriwyd yn flaenorol. Nodir manylion pellach yn adran 3 isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Ionawr 2023

# 2. Cytundeb wedi'i nodi er gwybodaeth

**Protocol sy'n diwygio'r Protocol Ychwanegol i'r Confensiwn ar Drosglwyddo Personau a Ddedfrydwyd**

**8.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 1 Rhagfyr 2022. Y terfyn amser ar gyfer craffu arno, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, yw 20 Ionawr 2023.

**9.** Mae'r cytundeb hwn yn gwneud diwygiadau i Brotocol Ychwanegol i'r Confensiwn ar Drosglwyddo Personau a Ddedfrydwyd (y Protocol Ychwanegol) Cyngor Ewrop, sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo personau sydd wedi'u dedfrydu rhwng partïon i'r confensiwn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb, mae'n diwygio'r Protocol Ychwanegol:

> *"… in particular when Foreign National Offenders … have left the sentencing State before having completed the execution of their sentence. Under the Amending Protocol, when the offender was subject to that sentence, the sentencing State may request the State of nationality to take over the execution of the sentence under certain circumstances …"*[2]

**10.** Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y cytundeb hefyd yn darparu, er yr ymgynghorwyd â Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar ei ddiben a'i gynnwys, gan nad oes gan Gymru gyfrifoldebau Cyfiawnder ar wahân, cafodd Llywodraeth Cymru ei hysbysu yn unig.[3]

**11.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gadwyd yn ôl (cyfiawnder) o fewn Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, nodwyd y cytundeb er gwybodaeth yn unig.

---

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Protocol sy'n diwygio'r Protocol Ychwanegol i'r Confensiwn ar Drosglwyddo Personau a Ddedfrydwyd, Rhagfyr 2022, paragraff 2.4
[3] Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 10.2-10.3

# 3. Gohebiaeth yn ymwneud â chytundebau a drafodwyd yn flaenorol

**12.** Ar 26 Medi 2022,[4] ystyriwyd yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu (sydd hefyd yn cael ei alw yn "Gonfensiwn Budapest"). Cytunwyd i rannu ein hadroddiad ar y cytundeb[5] gyda Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, gan fod cynnwys y cytundeb yn dod o fewn cylch gwaith Pwyllgor yr Economi.

**13.** Ar 21 Tachwedd 2022, ysgrifennodd Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Prif Weinidog i ofyn am ei farn ar y cytundeb, a manylion am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn hybu seiberddiogelwch a'r diwydiant ehangach.[6] Mae ymateb y Prif Weinidog i'r llythyr, dyddiedig 12 Rhagfyr, yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ein hadroddiad "ac yn cytuno ar gamau gweithredu".[7]

**14.** Rydym yn croesawu'r ymateb cynhwysfawr gan y Prif Weinidog sy'n egluro effaith ymarferol cytundebau rhyngwladol yng Nghymru a sut y cânt eu gweithredu.

[4] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Medi 2022
[5] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cytundebau Rhyngwladol: Cytundebau a ystyriwyd ar 26 Medi 2022
[6] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Prif Weinidog, 21 Tachwedd 2022
[7] Llywodraeth Cymru, Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Rhagfyr 2022